Y GYLLIDEB
BUDGET

# CYNIGION CYLLIDEB DDRAFFT
## 2024/25

## DADANSODDIAD YMGYNGHORIAD



monmouthshire
sir fynwy

Gyda'n gilydd, ar gyfer ein dyfodol
Together, for our future




# Tudalen Cynnwys

Mae'r ddogfen hon yn dangos canlyniadau'r Arolwg Ymgynghori ar y Gyllideb a gynhaliwyd rhwng 18 Ionawr 2024 a 15 Chwefror 2024.


| Cynnwys | Page No. |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Cynigion y Gyllideb Ddrafft – Ffeithlun Cysylltiadau | 5 |
| Craffu ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | 6 |
| Plant a Phobl Ifanc | 10 |
| Gofal Cymdeithasol ac Iechyd | 12 |
| Cymunedau a Lle | 14 |
| MonLife | 17 |
| Adnoddau | 19 |
| Uned y Prif Weithredwr | 20 |
| Cyfraith a Llywodraethiant | 21 |
| Costau ac Ardollau Corfforaethol | 22 |
| Cyffredinol a'r Dreth Gyngor | 23 |
| Demograffeg  yr Arolwg | 24 |
| Enghreifftiau o Gyfathrebiadau | 25 |




# Rhagair



***Cyng Mary Ann Brocklesby***
(Leader – Monmouthshire County Council)



***Cyng Ben Callard***
(Aelod Cabinet dros Adnoddau)

Mae ein gweinyddiaeth wedi ymrwymo i fod yn Gyngor sy'n gwrando. O ddechrau cyntaf y broses gyllideb hon, roeddem eisiau casglu sylwadau, o bob cwr, am yr hyn oedd bwysicaf i chi. Nid ydym wedi cilio rhag y ffaith ein bod yn wynebu her sylweddol yn y flwyddyn i ddod wrth i ni gyflwyno ein cyllideb arfaethedig ar gyfer 2024/25. Rydym wedi gwrando yn ystod sesiynau ymgysylltu ac wedi darllen y sylwadau o fewn yr arolwg. Rydym yn awr yn edrych ar wneud newidiadau i adlewyrchu'r sylwadau hyn wrth i ni gwblhau cynigion ein cyllideb.

Dros y flwyddyn ddiwethaf buom yn cysylltu gyda'n preswylwyr a rhanddeiliaid. Fe wnaethom ddefnyddio arolwg a siarad gyda llawer o grwpiau, yn gofyn beth sy'n bwysig iddynt a sut y gall ein cyllideb gefnogi eu hanghenion gan gadw ffocws ar egwyddorion craidd ein cyllideb a'n Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Os gwnaethoch lenwi'r arolwg, mynychu un o'n sesiynau ymgysylltu neu gysylltu â ni drwy e-bost neu dros y ffôn, hoffem ddweud diolch yn fawr. Rydych wedi rhoi adborth i helpu llunio ein cyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf a thu hwnt.

Ar hyd y broses ymgynghori, roedd yn glir fod elfennau o'n cynigion ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn achos pryder i'n preswylwyr a rhanddeiliaid. Roedd hyn yn bryder i ni hefyd. Gwnaethom hi'n glir lle gellid canfod adnoddau ychwanegol, y byddem yn eu defnyddio ar gyfer Addysg. Rydym yn cydnabod fod Addysg yn hollbwysig os yw ein pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd, gan eu galluogi i ddysgu a datblygu'r sgiliau a gwybodaeth y byddant eu hangen i gyrraedd eu potensial llawn. Yn dilyn eich adborth, fe wnaethom ddwysau ein hymdrechion i ddarparu cyllid ychwanegol at gyfer ein Cyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Fel sir, gallwn fod yn falch iawn fod gennym un o'r cyfraddau ailgylchu uchaf yng Nghymru. Ni chafodd dim o'r cynigion yn y gyllideb ddrafft eu cymryd yn ysgafn, yn cynnwys y tâl y cynigiwyd ei godi ar fagiau gwastraff bwyd. Roedd yn amlwg drwy'r holl sgyrsiau ac adborth a gafwyd fod hwn yn fater oedd yn peri pryder i chi. Ar ôl ystyried, cafodd y cynnig hwn yn awr ei dynnu o'r gyllideb i alluogi parhau i ddarparu bagiau yn rhad ac am ddim ar gyfer ein preswylwyr.

Roedd cyflwr ein ffyrdd yn gonsyrn arall a amlygwyd yn yr adborth. Rydym ni, fel chi, yn teithio ar draws y sir yn rheolaidd, ac nid yw cyflwr cyffredinol y rhwydwaith ffordd helaeth a reolwn o'r safonau yr hoffem iddi fod. Mae hyn yn effeithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, seiclwyr, cerddwyr a defnyddwyr ceir. Yn seiliedig ar yr adborth a gawsom, rydym wedi edrych ar ffyrdd, lle'n bosibl, i gynyddu'r gyllideb ar gyfer buddsoddi mewn priffyrdd.

Ein camau nesaf fydd gosod y gyllideb arfaethedig derfynol a chyhoeddi adroddiad, a gaiff ei drafod yn y Cabinet ar 28 Chwefror ac wedyn yng nghyfarfod nesaf y Cyngor ar 29 Chwefror.




Unwaith eto, fel Cabinet ac fel Cyngor, diolchwn i bawb ohonoch am gymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau hollbwysig yma. Edrychwn ymlaen at ymgysylltu ac ymgynghori parhaus ar draws ein holl wasanaethau, drwy gydol gweddill y flwyddyn hon a thu hwnt, wrth i ni lunio ein dyfodol gyda'n gilydd.



# Y GYLLIDEB BUDGET 2024/25

# CYNIGION CYLLIDEB DRAFFT

## RHYNGWEITHIADAU

**CAFWYD YMATEBION O OEDRANNAU**
**12-85+**

**YMGYSYLLTIADAU CYFRYNGAU CYMDEITHASOL**
**71,609**

**13**
**SESIWN RHANDDEILIAID WEDI'U CYFLWYNO GYDA CHYFANSWM PRESENOLDEB O**
**206**

**YMWELIADAU I'R WEFAN**
**3,104**

**YMGYSYLLTIADAU Â'R SESIYNAU DIGIDOL**
**436**

**ORIAU A DREULIWYD GYDA RHANDDEILIAID ALLWEDDOL**
**30.5**

**YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD**
**313**

monmouthshire
sir fynwy

Gyda'n gilydd, ar gyfer ein dyfodol
Together, for our future




# Craffu ac Ymgysylltu gyda Rhanddeiliaid

## Cyngor Sir Fynwy – Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg

Derbyniodd y pwyllgor gyflwyniad gan Aelod y Cabinet dros Adnoddau cyn codi cwestiynau am gynigion y Gyllideb Ddrafft. Roedd cwestiynau yn amrywio rhwng pob cynnig, gyda chynigion ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, Monlife a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn cael eu codi gyda'r Aelodau Cabinet a Swyddogion oedd yn bresennol. O fewn Gofal Cymdeithasol, gofynnwyd cwestiynau am effaith y cynigion ar y gweithlu a gallu'r Cyngor i ateb gofynion statudol i asesu unigolion. Codwyd cwestiynau pellach ar y rhagolwg diweddaraf o wariant. Dan y cynigion ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, gofynnwyd cwestiynau am y gostyngiad mewn cyllid i Cerddoriaeth Gwent a sut y bydd hyn yn effeithio ar allu pobl ifanc i gael mynediad i wersi cerddoriaeth.

## Cyngor Sir Fynwy – Pwyllgor Craffu Lle

Mae'r pwyllgor wedi cydnabod y pwysau ar y gyllideb y mae'r Cyngor yn ymdrin â nhw ar hyn o bryd. Yn ystod y drafodaeth gofynnwyd nifer o gwestiynau am gynigion y Gyllideb, yn cynnwys effaith bosibl ffioedd gwastraff masnach uwch ar fusnesau yn Sir Fynwy. Mynegodd y pwyllgor hefyd bryderon am y cynigion ar gyfer cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol a thanlinellu'r angen i sicrhau nad ydynt yn effeithio ar fyfyrwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Yn ychwanegol, codwyd pryderon am y setliad is gan Lywodraeth Cymru o gymharu â'r cyfartaledd ar draws Cymru, a gobeithiant y bydd yr Aelod Cabinet yn parhau i wthio am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Roedd meysydd trafod eraill yn cynnwys cau canolfannau hamdden yn gynnar ar benwythnosau ac effaith hynny ar iechyd a llesiant a'r effaith a gaiff y newidiadau arfaethedig i ganolfannau MonLife ar dwristiaeth. Fe wnaeth y pwyllgor hefyd drafod effaith costau parcio ceir ar nifer yr ymwelwyr mewn trefi.

## Cyngor Sir Fynwy – Pwyllgor Craffu Pobl

Cafodd y pwyllgor drafodaeth gyda'r Aelod Cabinet dros Adnoddau a swyddogion y Cyngor ynghylch cynigion y Gyllideb Ddrafft. Mynegodd y pwyllgor ei bryder bod cynigion y gyllideb yn achosi anfantais i bobl a gofynnwyd i Aelodau'r Cabinet ystyried y pwyntiau a wnaed. O fewn y pwyntiau hynny, gofynnwyd cwestiynau am gyllideb ysgolion a'r effeithiau ar Anghenion Dysgu Ychwanegol a Cherddoriaeth Gwent, y pwysau ar Ofal Cymdeithasol a gwasanaethau maethu. Gofynnwyd cwestiynau am newid oriau agor canolfannau hamdden, costau'r Dreth Gyngor ac os gwneir unrhyw newidiadau i drafnidiaeth gymunedol.

## Sesiynau Ymgysylltu Digidol (x3)

Gwahoddwyd y gymuned leol i gymryd rhan mewn sesiynau ymgysylltu ar-lein oedd yn cynnwys Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau. Rhoddwyd diweddariad ar gynigion y Gyllideb Ddrafft ac atebwyd cwestiynau gan y rhai a fynychodd. Yn ystod y sesiynau, gofynnwyd cwestiynau am effaith digartrefedd yn y gymuned ac os oedd y cyngor yn ystyried defnyddio asedau eiddo gwag yn ei bortffolio i roi cysgod i bobl. Codwyd y cynnig o godi tâl am fagiau gwastraff bwyd hefyd, gyda phryderon am yr argyfwng costau byw, a allai wneud hyn yn faich ychwanegol. Holwyd os y byddai darpariaeth neu gymorth ar gael i'r rhai na allai fforddio'r bagiau. Gofynnwyd cwestiynau hefyd am gyllidebau Addysg a Gofal Cymdeithasol gyda phryderon am y bobl fwyaf bregus yn y sir. Roedd y cynnydd yn y Dreth Gyngor hefyd yn fater o gonsyrn, a gofynnwyd os gellid rhoi unrhyw gefnogaeth i'r rhai nad ydynt efallai yn medru fforddio'r gost ychwanegol.




## Cyrff Llywodraethu Ysgolion

Mae llywodraethwyr ysgolion wedi mynegi eu pryderon am sefyllfa ariannol ysgolion. Maent yn bryderus am yr effaith negyddol a gaiff toriadau yn y gyllideb ar ansawdd addysg a llesiant staff a disgyblion. Cwestiynwyd rhesymeg a thegwch dyraniad y gyllideb, arbedion posibl o ddarpariaeth ADY, gwariant cyfalaf ar adeiladau newydd a phosibilrwydd cynyddu'r Dreth Gyngor neu drethu addysg breifat. Soniwyd hefyd am ganlyniadau hirdymor tangyllido addysg a'r angen am fwy o gefnogaeth gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru.

## Penaethiaid Ysgol

Roedd y sesiwn ymgysylltu hon yn galluogi penaethiaid ysgolion Sir Fynwy i drafod cynigion y gyllideb ddrafft gydag Aelodau Cabinet a swyddogion y Cyngor. Roedd y materion a godwyd gan y penaethiaid ysgol yn cynnwys sut mae'r Cyngor yn bwriadu gofyn i Lywodraeth Cymru am fwy o gyllid, sut y bydd y Cyngor yn cefnogi'r ysgolion i ymdopi gyda chyllideb is a sut y bydd y Cyngor yn sicrhau ansawdd a diogelwch addysg a gwasanaethau gofal. Yn ychwanegol, holodd y penaethiaid ysgol am gynlluniau'r Cyngor i gyfathrebu gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid am gynigion y gyllideb.

## Fforwm Cyllideb Ysgolion

Yn ystod y sesiwn ymgysylltu, siaradodd yr Aelod Cabinet dros Adnoddau a'r Aelod Cabinet dros Addysg am gynigion y Gyllideb Ddrafft gan esbonio sut y byddai'r cynigion yn effeithio ar y cyllid sydd ar gael i ysgolion. Nododd cynrychiolwyr o'r ysgolion y byddai'r cynnydd arfaethedig o 2.6% yn y gyllideb yn cael effaith sylweddol ar y gyllideb ar gyfer darparu addysg i ddisgyblion. Byddai'r effaith fwyaf ar ddarpariaeth anstatudol oherwydd diffyg cyllid ar gael. Er enghraifft, byddai myfyrwyr ADY a gefnogir mewn addysg brif ffrwd ar hyn o bryd yn colli cymorth ychwanegol. Cododd penaethiaid ysgol hefyd bryderon am gynnydd yn y Dreth Gyngor, fyddai'n taro ddwywaith ar y teuluoedd ysgol mwyaf bregus. Mae ysgolion yn ymroddedig i roi'r disgyblion mwyaf bregus wrth galon popeth a gynigiant. Fodd bynnag, os caiff cyllid ei gyfyngu, caiff teuluoedd eu taro sawl tro.

## Cyngor Myfyrwyr Ysgolion Uwchradd

Cafodd y Cynghorau Myfyrwyr o Ysgol Gyfun Trefynwy ac ysgol 3-19 Brenin Harri'r VIII, y Fenni, gyfarfod gydag Arweinydd y Cyngor y Cyng Mary Ann Brockelsby a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau y Cyng Ben Callard i drafod cynigion y Gyllideb Ddrafft. Rhoddodd y myfyrwyr adborth ar y cynigion a gyflwynwyd gan y Cyngor a gofyn am eglurhad am sut y cafodd y gyllideb ddrafft ei gosod a sut y gwnaed penderfyniadau ar gyfer pob cynnig. Cynhaliwyd trafodaeth eang yn y cyfarfod ar wahanol gynigion a amlinellir yn y Gyllideb Ddrafft. Pwysleisiodd y myfyrwyr y dylai'r Cyngor ystyried yr effaith ar yr amgylchedd ac ar blant a phobl ifanc. Cyfeiriwyd at nifer o brosiectau y gellid eu haddasu i ryddhau cyllid ar gyfer adrannau a phrosiectau eraill. Cafwyd sgwrs amrywiol rhwng y myfyrwyr a'r aelodau Cabinet a roedd y myfyrwyr yn frwd i gael eu lleisiau wedi'u clywed ar gynigion y gyllideb.

## Cynghorau Tref a Chymuned

Fe wnaeth y sesiwn ymgysylltu hon alluogi Cynghorau Tref a Chymuned i drafod cynigion y Gyllideb Ddrafft gydag Arweinydd y Cyngor, yr Aelod Cabinet dros Adnoddau a swyddogion y Cyngor. Cynhaliwyd sgwrs amrywiol ar wahanol bynciau o fewn y cynigion. Cyfeiriwyd drwy gydol y sesiwn at ddatblygu partneriaeth gryfach o gydweithio, teimlad a gefnogwyd gan bawb a gymerodd ran. Roedd cyfeiriad at yr hyn a welir yn aml fel diffyg eglurdeb mewn dealltwriaeth leol am gyfrifoldebau Cynghorau Tref a Chymuned a chyfrifoldebau Cyngor Sir Fynwy. Gwnaed ymrwymiad ar gyfer gwaith ar y cyd yn y dyfodol. Cododd Cynghorau Tref gostau parcio ceir fel maes o bryder i gefnogi ein rhwydwaith canol trefi a busnesau.




## Rhwydweithiau Busnes

Yn dilyn cyflwyniad gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Gynllunio a Datblygu Economaidd a chyflwyniad gan yr Aelod Cabinet dros Adnoddau, cododd y rhai oedd yn bresennol gwestiynau a phryderon am gynigion y Gyllideb Ddrafft. Roedd y materion a godwyd yn cynnwys cwestiynau am y newidiadau a gynigir ar gyfer atyniadau twristiaeth y mae'r Cyngor yn berchen arnynt a chanolfannau hamdden. Mynegwyd pryder hefyd am ddileu cyllid ar gyfer Canolfan Croeso y Fenni. Trafodwyd y cynnydd yng nghostau gwastraff masnach ac effaith hynny ar ddeddfwriaeth newydd ar ailgylchu gan fusnesau. Soniwyd am y cynnydd arfaethedig mewn prisiau parcio ceir gan fod pryder am y gostyngiad posibl yn nifer yr ymwelwyr mewn trefi lleol. Roedd y rhai oedd yn bresennol hefyd yn bryderus am effaith y gyllideb ar aelodau mwyaf bregus cymdeithas, yn arbennig oedolion ifanc anabl. Gofynnwyd am i fwy o wybodaeth gael ei rhannu am unrhyw astudiaethau a gynhelir ar y pwnc hwn.

## Pobl Ifanc yn Gadael Gofal

Siaradodd pobl ifanc yn gadael gofal gydag Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Gydraddoldeb ac Ymgysylltu mewn sesiwn ymgysylltu. Cododd y bobl ifanc nifer o bryderon a gofyn cwestiynau am faterion amrywiol. Soniwyd am effaith yr argyfwng costau byw a'r angen i gael mwy o gefnogaeth am sgiliau trin arian. Trafodwyd hefyd yr opsiynau tai fforddiadwy a'r cyfleoedd cyflogaeth lleol oedd ar gael. Mynegodd y bobl ifanc eu cefnogaeth i gynigion yn ymwneud â Gwasanaethau Plant, yn arbennig gefnogi pobl sydd angen gofal preswyl i aros yn agos i'w cartrefi. Gofynnwyd am sicrwydd na fyddid yn gostwng cefnogaeth cymorth personol. Roedd rhai o'r bobl ifanc yn bryderus am ddod â'r cynllun peilot Incwm Sylfaenol i ben a soniwyd hefyd am bwysigrwydd Cronfa Dewi Sant. Cododd un person ifanc bryder am ddiffyg cyfleusterau ar gyfer pobl ifanc yn eu tref leol.

## MyMates

Yn ystod y sesiwn ymgysylltu gyda chynrychiolwyr o MyMates, cafodd y mynychwyr gyfle i drafod cynigion y Gyllideb Ddrafft gyda'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Diogelu a Gwasanaethau Hygyrch a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau. Roedd y sesiwn yn rhoi cyfle am sylwadau ac ymholiadau cyffredinol ar y cymorth sydd ar gael i helpu aelodau i gadw eu hannibyniaeth. Roedd trafodaeth ar sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer pobl anabl. Rhannwyd enghreifftiau, tebyg i ddiffyg cyrbiau isel sy'n effeithio ar symudedd a hygyrchedd ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn. Trafodwyd trafnidiaeth gyhoeddus hefyd, a dywedwyd nad oedd yr amserlenni ac amlder bysus yn diwallu anghenion pobl.

## Grŵp Ymgynghori ar y Cyd

Cynhaliodd y Grŵp Ymgynghori ar y Cyd gyfarfod lle cafodd Undebau Llafur gyfle i drafod cynigion y Gyllideb Ddrafft gydag Aelodau Cabinet a swyddogion y Cyngor. Codwyd pryderon am y gweithlu, Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn ystod y cyfarfod. Cynhaliwyd trafodaeth ar effaith rhewi swyddi gwag a sut y gallai effeithio ar les staff presennol. Mynegodd yr Undebau Llafur hefyd bryderon am effaith y gyllideb ar ysgolion a fyddai angen ailstrwythuro dan y cynigion ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Nododd yr Aelod Cabinet dros Addysg y cynhaliwyd sesiwn ymgysylltu gyda Phenaethiaid Ysgol (crynodeb uchod). Yn ychwanegol, cynhelir Asesiad Effaith Cronnus i werthuso effeithiau'r gyllideb ar wahanol fathau o aelwydydd a lefelau incwm, yn ogystal â'r effaith ar grwpiau gyda nodweddion gwarchodedig a ddynodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae camau gweithredu lliniaru yn cael eu hystyried lle bynnag sy'n bosibl.

## Cwtsh Digidol

Mae'r Cwtsh yn sesiwn ymgysylltu ar-lein a gynhaliwyd ar gyfer y swyddogion y Cyngor, gan roi cyfle i staff godi cwestiynau gyda'r Arweinwyr Uwch. Bu dros 220 o swyddogion Cyngor Sir Fynwy yn bresennol yn y sesiwn, a gafodd ei recordio ar gyfer aelodau na fedrent gymryd rhan




fyw. Cafodd y Cwtch ei ddatblygu i ddechrau yn ystod pandemig Covid ac mae wedi profi'n llwyfan effeithiol ar gyfer ymgysylltiad parhaus. Roedd y sesiwn yn caniatau parhau i ymgysylltu gyda swyddogion i roi adborth ar y cynigion drafft.





# Plant a Phobl Ifanc

**Crynodeb:**

Yn ôl canlyniadau'r arolwg, roedd 27% o'r cyfranogwyr naill ai yn cytuno'n gryf neu yn cytuno gyda 'r cynigion ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2024/25. Ar y llaw arall, roedd mwyafrif o 51% yn anghytuno yn gryf neu'n anghytuno gyda'r cynigion. Roedd 22% o'r sawl a gymerodd ran yn niwtral ar y cynigion. Allan o'r cynigion unigol, cafodd y rhan fwyaf eu cefnogi gan y cyfranogwyr, heblaw am ddau gynnig. Gwrthwynebodd 56.5% o'r cyfranogwyr yr arbediad o £835,000 o "Effeithiolrwydd cyllideb ysgolion ar ôl cynyddu'r gyllideb ar gyfer ariannu pwysau tâl rhagamcanol". Yn yr un modd, gwrthwynebodd 47% o'r cyfranogwyr y cynnig am arbedion o £534,000 o "Arbediad net ar leoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)". Roedd 70% o'r cyfranogwyr yn cefnogi'r cynnig am arbediad o £12,000 o "Cymorth Plant a Phobl Ifanc – Rhyddhau arian wrth gefn disgwyliedig o baneli solar ar ysgolion". Yn ychwanegol, roedd 49.2% o'r cyfranogwyr yn cefnogi'r arbedion a gynigiwyd ar gyfer "Taliadau Clwb Brecwast".

### 1. Ydych chi'n cytuno gyda chynigion y Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc?




### 2. Dewiswch isod y cynigion yr ydych yn eu CEFNOGI neu yn eu HERBYN o fewn Cynigion Cyllideb y Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc.

| Cynigion | % Cefnogi | % Niwtral | % yn Erbyn | % Gweledol |
|---|---|---|---|---|
| Effeithlonrwydd cyllideb ysgolion ar ôl cynyddu'r gyllideb ar gyfer cyllido pwysau tâl rhagamcanol (Arbediad: £835,000) | 24.9% | 18.5% | 56.5% | |
| Cymorth Plant a Phobl iIfanc: Rhyddhau cronfa wrth gefn ddisgwyliedig o baneli solar ar ysgolion (Arbediad: £120,000) | 70.0% | 19.2% | 10.9% | |
| Cymorth Plant a Phobl Ifnac – Rhewi swydd wag yn y tîm derbyn myfyrwyr (Arbediad: £34,000) | 44.4% | 27.2% | 28.2% | |
| Arbediad net ar leoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (Arbediad: £534,000) | 33.2% | 19.8% | 47.0% | |
| ADY a Safonau – Parhau i gadw swydd wag ar agor yn nhîm Gwasanaethau Addysgu Arbenigol Sir Fynwy (Arbediad: £20,000) | 39.0% | 37.4% | 23.6% | |
| ADY a Safonau – Gostyngiad o 10% yn y cyfraniad i EAS (£35,000) | 39.0% | 27.2% | 33.9% | |
| Cerddoriaeth Gwent – Gostwng cyfraniad ond gadw cronfa caledi (£39,000) | 45.0% | 19.8% | 35.1% | |
| Taliadau Clwb Brecwast (£70,000) | 49.2% | 20.1% | 30.7% | |




### 3. A oes unrhyw beth yr hoffech i ni ei ystyried o fewn y Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc?

Drwy'r holl sylwadau a gyflwynwyd, mae rhai pobl yn cytuno gyda'r cynigion ac yn cydnabod sefylfla ariannol anodd y Cyngor. Fodd bynnag, mae eraill yn gryf yn erbyn y cynigion ac yn annog y Cyngor i roi blaenoriaeth i addysg a gwasanaethau plant. Y themâu neu faterion mwyaf cyffredin y soniodd ymatebwyr amdanynt yw darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gwasanaeth Cerddoriaeth Gwent, taliadau am glybiau brecwast a'r cyfraniad i'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS). Mynegodd llawer o ymatebwyr bryderon am effaith y cynigion ar ansawdd addysg llesiant plant a phobl ifanc. Yn ychwanegol soniodd yrymatebwyr am effeithiau parhaus COVID-19 ar addysg, yr angen am gynnydd costau byw ar gyfer athrawon, posibilrwydd prawf modd ar gyfer clybiau brecwast a phrydau ysgol am ddim, potensial cydweithio gydag awdurdodau lleol eraill neu fusnesau, rôl y Gymreg mewn addysg a'r angen i fuddsoddi yn y genhedlaeth nesaf.





# Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

**Crynodeb:**

Yn seiliedig ar ganlyniadau'r arolwg, canfuwyd fod 27% o gyfranogwyr naill ai'n cytuno yn gryf neu'n cytuno. O gymharu, roedd 26% yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno gyda'r cynigion a gyflwynwyd yng nghynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024/25. Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr o blaid y gyllideb arfaethedig (47%). Er fod y cyfranogwr yn cefnogi'r cynigion unigol, roedd un cynnig, "Newid lleoliad ac ymarfer (Arbediad: £1,300,000)" yr oedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn ei wrthwynebu. Roedd 49.8% o'r cyfrfanogwyr yn cefnogi'r cynnig i "Adolygu'r cap tâl wythnosol dibreswyl cyfreithiol o £100 i £120".

### 4. Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion i'r Gyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd?




### 5. Dewiswch isod y cynigion yr ydych yn eu CEFNOGI neu eu HERBYN o fewn Cynigion Cyllideb y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

| Cynigion | % Cefnogi | % Niwtral | % yn Erbyn | % Gweledol |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion: Adolygiad staffio Cyfarwyddiaeth (Arbediad: £1,494,000) | 46.3% | 31.9% | 21.7% | |
| Gwasanaethau Plant – Newid lleoliad ac ymarfer (Arbediad: £1,300,000) | 34.5% | 29.7% | 35.8% | |
| Gwasanaethau Oedolion – Agenda newid ymarfer (Arbediad: £1,130,000) | 44.1% | 32.3% | 23.6% | |
| Gwasanaethau Oedolion – Gostyngiad mewn trefniadau partneriaeth oedolion ar gyfer modelau darpariaeth gwasanaeth Gwent (Arbediad: £55,000) | 41.5% | 35.8% | 22.7% | |
| Gwasanaethau Oedolion – Arbedion o wasanaethau i fforddio newid Severn View (Arbediad: £105,000) | 45.7% | 34.5% | 19.8% | |
| Adolygu'r cap tâl wythnosol dibreswyl cyfreithiol o £100 i £120 (Arbediad: £578,000) | 49.8% | 30.7% | 19.5% | |
| Gwasanaethau Oedolion – Adolygu a chynyddu rhestr ffioedd a thaliadau cyfarwyddiaeth (Arbediad: £388,000) | 44.4% | 35.5% | 20.1% | |
| Diogelu'r Cyhoedd – Swydd wag rannol yn deillio o newid swydd Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Arbediad: £23,000) | 47.0% | 34.2% | 18.8% | |




### 6. A hoffech i ni ystyried unrhyw beth arall o fewn y Gyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol ac iechyd?

Mynegodd llawer o ymatebion bryder am effaith cynigion y gyllideb ar unigolion bregus ac ansawdd gwasanaethau a ddarperir. Mae rhai ymatebion yn awgrymu ffyrdd eraill i arbed arian, tebyg i ostwng cyflogau uwch arweinwyr, ail-dendro contractau asiantaeth gofal a buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol. Mae hefyd awgrymiadau i wella effeitholrwydd y system drwy symleiddio prosesau a gostwng costau gweinyddol.





# Cymunedau a Lle

**Crynodeb:**

O fewn y cynigion Cymuned a Lle, mae 35% o gyfranogwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno, gyda 23% yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno gyda'r cynigion. Mae 42% o gyfranogwyr wedi nodi eu bod yn niwtral yn y cynigion. Cafodd mwyafrif y cynigion eu cefnogi heblaw am ddau. Roedd 44.4% o'r cyfranogwyr yn gwrthwynebu "Rhoi'r gorau i ddarparu bagiau gwastraff bwyd am ddim (Arbediad : £50,000)" a 49.5% yn gwrthwynebu "Ffioedd a Thaliadau – Cynyddu costau parcio ceir gan 10% (Arbediad: £66,000)". I gefnogi, roedd 82.1% yn cefnogi "Dileu car cyngor (Arbediad: £8,000)" a 77% yn cefnogi "Cynyddu cyfleoedd cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar draws ein stad i ostwng y galw ar gyflenwad grid (Arbediad: £50,000)"

**7. Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion i'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau a Lle?**






**8. Dewiswch isod y cynigion yr ydych yn eu CEFNOGI neu yn eu HERBYN o fewn Cynigion Cyllideb y Gyfarwyddiaeth Cymunedau a Lle.**

| Cynigion | % Cefnogi | % Niwtral | % yn Erbyn | % Gweledol |
|---|---|---|---|---|
| Arbedion o bartneriaeth ailgylchu Siltbuster (Arbediad: £20,000) | 59.1% | 30.4% | 10.5% | |
| Ffioedd a Thaliadau – Cynnydd o 10% mewn costau casglu gwastraff gardd10% (Arbediad: £75,000) | 54.3% | 12.1% | 33.5% | |
| Gwasanaethau gwastraff a stryd – Ailstrwythuro i ostwng costau staff a pheidio llenwi swydd wag (Arbediad: £50,000) | 52.1% | 18.8% | 29.1% | |
| Rhoi'r gorau i ddarparu bagiau gwastraff bwyd am ddim (Arbediad: £50,000) | 41.9% | 13.7% | 44.4% | |
| Ailstrwythuro Tîm Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Arbediad: £25,000) | 60.4% | 24.3% | 15.3% | |
| Dileu car y cyngor (Arbediad: £8,000) | 82.1% | 12.8% | 5.1% | |
| Adolygu darpariaeth contractau cerbydau bach ar gyfer cludiant rhwng yr ysgol a'r cartref (Arbediad: £93,000) | 60.1% | 15.7% | 24.3% | |
| Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol – cynyddu cost seddau cludiant consensiwn o £440 i £484 (cynnydd o 10%) (Arbediad: £3,000) | 51.4% | 19.8% | 28.8% | |
| Cynyddu cyfleoedd cynhyrchu ynni adnewyddadwu ar draws ein stad i ostwng y galw ar gyflenwad grid (Arbediad: £50,000) | 77.0% | 15.0% | 8.0% | |
| Incwm cynllunio (Arbediad: £50,000) | 60.7% | 28.1% | 11.2% | |
| Gofyn i Lywodraeth Cymru gynyddu ffioedd cais cynllunio statudol gan 25% (Arbediad: £98,000) | 57.2% | 20.8% | 22.0% | |
| Ffioedd a Thaliadau – cynyddu ffioedd gan 10% ar gyfer enwi a rhifo strydoedd, trwyddedau, cau ffyrdd ac archwiliadau (Arbediad: £33,000) | 69.0% | 18.8% | 12.1% | |
| Ffioedd a Thaliadau – Cynyddu costau parcio ceir gan 10% (Arbediad: £66,000) | 37.1% | 13.4% | 49.5% | |
| Ffioedd a Thaliadau – Cynyddu taliadau cyn-cais y Corff Cymeradwyo Systemau Draeniad Cynaliadwy (SAB) (Arbediad: £2,000) | 53.0% | 30.0% | 16.9% | |
| Incwm cais Corff Cymeradwyo Systemau Draeniad Cynaliadwy (SAB) (Arbediad: £25,000) | 55.0% | 30.0% | 15.0% | |
| Ffioedd a Thaliadau – Cynnydd yn y ffioedd gwastraff masnach, gwerthu bagiau a biniau (Arbediad: £30,000) | 49.5% | 19.8% | 30.7% | |
| Digartrefedd – Ailgartrefu cyflym (Arbediad £400,000) | 47.9% | 24.3% | 27.8% | |

**9. A hoffech i ni ystyried unrhyw beth arall o fewn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau a Lle?**

O fewn yr arolwg, mae llawer o gyfranogwyr yn gwrthwynebu cynyddu'r ffi casglu gwastraff gardd, gan sôn am y Dreth Gyngor uchel, heriau costau byw a phosibilrwydd mwy o dipio anghyfreithlon neu beidio adnewyddu'r gwasanaeth. Cynnig amhoblogaidd arall yw rhoi'r gorau i ddarparu bagiau gwastraff bwyd am ddim gyda rhai yn dadlau y bydd hynny yn atal pobl rhag ailgylchu, cynyddu'r gwastraff mewn bagiau du a denu llygod mawr. Mae'r sylwadau yn codi pryderon y gall codi taliadau parcio ceir fygwth busnesau lleol a'r stryd fawr, gan y gallai pobl siopa rywle arall4 neu barcio mewn strydoedd preswyl. Mynegodd cyfranogwyr gonsyrn am y cynnig i ostwng y cyllid ar gyfer ailgartrefu cyflym o bobl ddigartref a thanlinellodd yr angen i ddarparu cartrefi gweddus a chefnogaeth ar gyfer y grŵp bregus hwn. Awgrymwyd y gallai fod prawf modd ar gludiant consensiwn i'r ysgol neu ei ostwng i rai teuluoedd, yn arbennig y rhai





sy'n byw o fewn ffiniau bws neu gydag incwm uwch. Mae rhai ymatebion yn cynnig awgrymiadau neu sylwadau eraill ar gynigion y gyllideb, tebyg i symleiddio ailgylchu, cynyddu ffioedd cynllunio, gostwng costau gweinyddol, dirywio'r cwmni sy'n llygru'r Afon Gwy a darparu mwy o lanhau strydoedd.

# MonLife

**Crynodeb:**
Roedd 38% o gyfranogwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno gyda'r cynigion ar gyfer MonLife, gyda 29% yn cytuno'n gryf neu'n anghytuno gyda'r cynnig. Nododd 33% eu bod yn niwtral ar y cynigion. Roedd cyfranogwyr yn cefnogi'r holl gynigion unigol. Roedd y gefnogaeth uchaf ar gyfer y cynigion i "Ail-alinio gwasanaethau o fewn Neuadd y Dref/Machnad yn y Fenni i wella eu potensial a sicrhau darpariaeth gwasanaeth parhaus (Arbediad: £20,000") gyda 71.6% ac "Ailstrwythuro Rheolaeth Lefel Uchel – Model Rheoli Ardal (Arbediad: £120,000)" gyda 79.2%.

**10. Ydych chi yn cytuno gyda'r cynigion ar gyfer Cyfarwyddiaeth MonLife?**






### 11. Dewiswch isod y cynigion yr ydych yn eu CEFNOGI neuyn eu HERBYN o fewn Cynigion Cyllideb Cyfarwyddiaeth MonLife

| Cynigion | % Cefnogi | % Niwtral | % yn Erbyn | % Gweledol |
|---|---|---|---|---|
| Ailalinio gwasanaethau o fewn Neuadd y Dref/Marchnad y Fenni i wella eu potensial a sicrhau darpariaeth gwasanaeth parhaus (Arbediad: £20,000) | 71.6% | 21.7% | 6.7% | |
| Amgueddfeydd – Cau amgueddfeydd y Fenni a Chas-gwent ar ddiwrnod ychwanegol yr wythnos ac adolygu cymorth busnes (Arbediad: £40,000) | 62.3% | 15.3% | 22.4% | |
| Atyniadau – Cau Hen Orsaf Tyndyrn un diwrnod yr wythnos (Arbediad: £10,000) | 59.1% | 15.7% | 25.2% | |
| Atyniadau: - Defnyddio grantiau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i dalu am staffio craidd wrth gyflwyno Treftadaeth Yfory Heddiw a Dyfodol Creadigol (Arbediad: £60,000) | 62.9% | 25.9% | 11.2% | |
| Cefn Gwlad a Diwylliant – Cynhyrchu incwm ychwanegol (Arbediad: £25,000) | 66.1% | 23.6% | 10.2% | |
| Cefn Gwlad a Diwylliant – Cynhyrchu incwm Mynediad Cefn Gwlad (Arbediad - £35,000) | 64.5% | 23.3% | 12.1% | |
| Cefn Gwlad a Diwylliant – Adolygu cyfraniad a chefnogaeth ariannol i Ganolfan Croeso y Fenni (Arbediad: £10,000) | 61.3% | 26.2% | 12.5% | |
| Cefn Gwlad a Diwylliant – Adennilll amser swyddogion o gyllid A106 (Arbediad: £15,000) | 65.8% | 25.9% | 8.3% | |
| Hamdden, Chwaraeon ac Antur Awyr Agored – Symud i fodel gweithredu mwy cynaliadwy, gan greu safle aml-swyddogaeth gyda ail-ymgysylltu Gwasanaeth Atgyfeirio Disgyblion a Gwasanaethau Cymdeithasol (Arbediad: £140,000) | 59.1% | 22.4% | 18.5% | |
| Canolfannau hamdden – Newid amser agor, cau ar ddyddiau'r wythnos 21:30 cau ar benwythnosau 16:30 (Arbediad: £140,000) | 51.1% | 11.2% | 37.7% | |
| Ail-alinio darpariaeth clwb ieuenctid (Arbediad: £20,000) | 42.2% | 21.4% | 36.4% | |
| Ailddylunio gwasanaeth marchnata ac aelodaeth (Arbediad: £20,000) | 69.0% | 20.1% | 10.9% | |
| Ailstrwythuro Rheolaeth Lefel Uchel – Model rheoli ardal (Arbediad: £120,000) | 79.2% | 14.1% | 6.7% | |
| Cynyddu ffioedd a thaliadau na chafodd eu cynnwys mewn cynigion ar wahân (Arbediad: £27,000) | 44.7% | 25.2% | 30.0% | |

### 12. A hoffech i ni ystyried unrhyw beth arall o fewn Cyfarwyddiaeth MonLife?

Mae mwyafrif yr ymatebion a gafwyd yn mynegi diolch i'r gwasanaethau a ddarperir gan MonLife. Mae llawer o ymatebwyr yn gwrthwynebu'r cynigion i ostwng oriau agor canolfannau hamdden ac amgueddfeydd neu gau cyfleusterau ar ddyddiau penodol. Mae rhai ymatebwyr wedi awgrymu ffyrdd eraill i arbed arian neu gynhyrchu incwm. Gwnaeth rhai ymatebwyr gwynion neu geisiadau penodol am rai gwasanaethau neu gyfleusterau. Mae hyn yn cynnwys materion tebyg i ansawdd hyfforddiant staff, argaeledd dosbarthiadau, marchnata a brandio, mynediad i goetiroedd, hawliau tramwy, ffioedd parcio a'r gwasanaeth ffôn. Mae rhai cyfranogwyr wedi gofyn am fwy o ymgysylltu ac ymgynghori gyda defnyddwyr a'r cyhoedd cyn gwneud unrhyw newidiadau.





# Adnoddau

**Crynodeb:**

Mynegodd llawer o'r cyfranogwyr (49%) niwtraliaeth tuag at y cynigion cyllideb cyffredinol ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Adnoddau. Roedd 35% o'r cyfranogwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno gyda'r cynigion, tra bod 16% naill ai'n anghytuno yn gryf neu'n anghytuno. Cafodd yr holl gynigion eu cefnogi gan dros 50% o'r cyfranogwyr gyda'r "Buddsoddiadau Masnachol – Gwrthdroi pwysau incwm (Arbediad: £208,000)" â'r canran isaf yn erbyn o 6.7%.

### 13. Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Adnoddau?




### 14. Dewiswch isod y cynigion yr ydych yn eu CEFNOGI neu yn eu HERBYN o fewn Cynigion Cyllideb y Gyfarwyddiaeth Adnoddau.

| Cynigion | % Cefnogi | % Niatal | % yn Erbyn | % Gweledol |
|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau Masnachol – Gwrthdroi pwysau incwm (Arbediad: £208,000) | 58.1% | 35.1% | 6.7% | |
| Incwm – Unedau diwydiannol, mynwentydd, ffermydd sirol (Arbediad: £100,000) | 53.0% | 31.0% | 16.0% | |
| Gwasanaethau eiddo – Cydweithio gyda Heddlu Gwent (Arbediad: £50,000) | 57.7% | 31.0% | 15.3% | |
| Gostyngiadau yng nghyfraniadau'r Gwasanaeth Rhannu Adnoddau (Arbediad: £17,000) | 51.4% | 36.4% | 12.1% | |

### 15. A hoffech i ni ystyried rhywbeth arall o fewn y Gyfarwyddiaeth Adnoddau?

Mae cyfranogwyr yn cefnogi rhannu adnoddau, buddsoddi mewn gwasanaethau digidol a chynyddu incwm o eiddo masnachol a diwydiannol. Mae eraill yn gwrthwynebu gostwng gwasanaethau rheoleiddiol strategol, cwestiynu'r angen am rai swyddi a mynegi pryderon moesegol am elwa o fynwentydd. Awgrymodd rhai cyfranogwyr werthu ffermydd sirol i ffermwyr, gan ymchwilio swyddogaethau ar draws Gwent y gellid dod â nhw i Gyngor Sir Fynwy, gan edrych ar gostau cyllido canolog yr holl staffio, gan gynhyrchu dogfennau ymgynghori rhwyddach eu darllen ac adolygu rhenti eiddo buddsoddi manwerthu. Dywedodd rhai cyfranogwyr ei bod eisoes yn amhosibl cysylltu â Chyngor Sir Fynwy neu gael rhywun i ffonio'n ôl a bod angen i'r cynigion roi mwy o fanylion ar gyfer sylwadau. Mae rhai cyfranogwyr yn dweud y dylid gostwng cyllideb y gyfarwyddiaeth yn sylweddol.





# Uned y Prif Weithredwr

**Crynodeb:**

Mae 39% o'r cyfranogwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno gyda'r cynigion ar gyfer Cyfarwyddiaeth Uned y Prif Weithredwr tra bod 20% yn anghytuno yn gryf neu'n anghytuno. Roedd 41% o'r cyfranogwyr yn niwtral ar y cynigion. Cafodd y ddau gynnig o fewn y Cynigion y Gyllideb Ddrafft eu cefnogi gan y rhan fwyaf o gyfranogwyr, gyda llai na 10% yn gwrthwynebu un o'r cynigion arbedion, gyda dros 66% o'r cyfranogwyr yn eu cefnogi.

**16. Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ar gyfer Cyfarwyddiaeth Uned y Prif Weithredwr?**




**17. Dewiswch isod y cynigion yr ydych yn eu CEFNOGI neu yn eu HERBYN o fewn Cynigion Cyllideb Uned y Prif Weithredwr.**

| Cynigion | % Cefnogi | % Niwtral | % yn Erbyn | % Gweledol |
|---|---|---|---|---|
| Polisi – Hyfforddiant a Datblygu Gweithlu – Ail-alinio staffio (£65k), gweithio partneriaeth wrth ddarparu hyfforddiant ar-lein (£10.5k) (Arbediad: £75,000) | 67.1% | 23.6% | 9.3% | |
| Cyflogres ac Adnoddau Dynol – Rhyddhau : £10,000) | 66.8% | 25.2% | 8.0% | |

**18. A hoffech i ni ystyried unrhyw beth arall o fewn Cyfarwyddiaeth Uned y Prif Weithredwr?**


Mynegodd cyfranogwyr eu pryderon am y gostyngiadau arfaethedig mewn datblygu a hyfforddiant staff. Gofynnwyd cwestiynau am ansawdd ac effeithlonrwydd hyfforddiant ar-lein ac awgrymu gwahanol ffyrdd i gyflawni mwy arbedion ac effeithiolrwydd. Roedd hyn yn cynnwys gostwng cyfieithu i'r Gymraeg, allgyrchu gwasanaethau cyflogres ac adnoddau dynol a gweithio'n fwy agos gyda chynghorau eraill. Yn ychwanegol, cymharodd rhai cyfranogwyr gynigion y gyllideb ar gyfer Uned y Prif Weithredwr gyda Cyfarwyddiaethau eraill, tebyg i blant a phobl ifanc. Eu dadl oedd fod y blaenoriaethau yn anghywir ac awgrymwyd dyrannu'r gyllideb yn decach ar draws pob cyfarwyddiaeth..




# Cyfraith a Llywodraethiant

**Crynodeb:**
Gwelodd y Gyfarwyddiaeth Cyfraith a Llywodraethiant 39% o gyfranogwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno gyda'r cynigion, gyda 18% yn anghytuno yn gryf neu yn anghytuno. Dywedodd 43% o'r cyfranogwyr eu bod yn niwtral ar y cynnig. Roedd 66.5% o'r cyfranogwyr yn cefnogi "Rhewi Swydd Wag – Swydd Paragyfreithiol (Arbediad: 33,000)", gyda 9.9% yn erbyn y cynnig hwn.

### 19. Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ar gyfer y Gyfarwyddiaeth y Gyfraith a Llywodraethiant?




### 20. Dewiswch isod y cynigion yr ydych yn eu CEFNOGI neu yn eu HERBYN o fewn Cynigion Cyllideb y Gyfarwyddiaeth Cyfraith a Llywodraethiant.

| Cynigion | % Cymorth | % Niwtral | % yn Erbyn | % Gweledïad |
|---|---|---|---|---|
| Rhewi Swydd Wag – swydd Paragyfreithiol (Arbediad: £33,000) | 66.5% | 23.6% | 9.9% | |

### 21. A hoffech i ni ystyried unrhyw beth arall o fewn y Gyfarwyddiaeth Cyfraith a Llywodraethiant?

Mynegodd llawer o'r ymatebion anfodlonrwydd, anghytundeb neu amheuaeth am y cynnydd a gynigiwyd i'r gyllideb, gan sôn am ddiffyg arbedion a'r effaith y gallai ei gael ar wasanaethau cyhoeddus eraill. Roedd rhai cyfranogwyr yn holi pam fod y Cyngor wedi cadw swydd Paragyfreithiol yn wag a gofyn cwestiynau am pwy a fyddai'n gwneud y gwaith ac os oedd hynny yn gam gwag neu'n risg. Awgrymodd rhai cyfranogwyr y dylai'r Gyfarwyddiaeth Cyfraith a Llywodraethiant ostwng costau, symleiddio prosesau neu gydweithio gyda chynghorau eraill i sicrhau arbedion. Dywedodd un ymateb hyd yn oed fod y tîm paragyfreithiol yn fargen.





# Costau ac Ardollau Corfforaethol

**Crynodeb:**

Roedd 42% o gyfranogwyr yn cytuno'n gryf neu'n anghytuno gyda'r cynigion ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Costau ac Ardollau Corfforaethol, gyda 14% yn anghytuno'n gryf neu'n anghytuno gyda'r cynigion. Roedd 44% o'r cyfranogwyr yn niwtral am y cynigion. Roedd 70.8% o gyfranogwyr yn cefnogi'r cynnig 'Tynnu lawr ar gronfa wrth gefn Wcráin ar gyfer costau cysylltiedig pellach (Arbediad: £200,000)", gyda 8.9% yn erbyn.

### 22. Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Costau ac Ardollau Corfforaethol?




### 23. Dewiswch isod y cynigion yr ydych yn eu CEFNOGI neu yn eu HERBYN o fewn cynigion y Gyllideb ar gyfer Costau ac Ardollau Corfforaethol.

| Cynigion | % Cefnogi | % o Blaid | % yn Erbyn | % Gweledol |
|---|---|---|---|---|
| Tynnu lawr yn erbyn cronfa wrth gefn Wcráin ar gyfer costau pellach cysylltiedig (Arbediad: £200,000) | 70.6% | 20.4% | 8.9% | |


### 24. A oes unrhyw beth arall yr hoffech i ni ei ystyried o fewn y Gyfarwyddiaeth Costau ac Ardollau Corfforaethol?

Roedd y rhan fwyaf o ymatebion yn negyddol ac yn feirniadol o gynnig y gyllideb. Roedd yr ymatebion hyn yn cwestiynu'r angen am gynnydd sylweddol yn y gyllideb, diffyg tryloywder ac effeithiolrwydd a'r effaith bosibl ar wasanaethau hanfodol eraill fel addysg a gofal cymdeithasol. Roedd ymatebion yn cefnogi dyletswyddau statudol y Cyngor tuag at ddinasyddion Wcráin a cheiswyr lloches, gan ddweud y dylent gael eu cadw a'u cynyddu.





# Cynnig Cyffredinol y Gyllideb Ddrafft 2024-25

**25. O fewn cynigion Cyllideb Ddrafft 2024/25, mae'r Cyngor yn cynnig cynyddu'r Dreth Gyngor gan 7.5%. Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion?**




**26. Ydych chi yn cytuno gyda Chyllideb Ddrafft 2024/25?**




**27. Rhowch unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried fel rhan o Gynigion y Gyllideb Ddrafft 2024/25**


Mynegodd nifer fawr o gyfranogwyr bryderon am y cynnydd o 7.5% a gynigir yn y dreth Gyngor. Mae rhai'n credu fod y cynnydd yn rhy fawr, tra awgrymodd eraill ddulliau eraill o gynhyrchu incwm. Mae cyfranogwyr yn bryderus am effaith y cynnydd a gynigir yn y Dreth Gyngor ar aelwydydd sydd eisoes mewn trafferthion oherwydd yr argyfwng costau byw. Maent hefyd wedi mynegi pryderon am y toriadau a gynigiwyd i gyllidebau ysgolion ac effeithiau hynny ar addysg plant. Yn ychwanegol, mae pryderon am effaith y gyllideb ddrafft ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu. Mae cyfranogwyr hefyd wedi cwestiynu tecwch y fformiwla cyllido a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru. Cefnogodd rhai cyfranogwyr gynnig y gyllideb a chydnabod y sefyllfa ariannol heriol sy'n wynebu'r Cyngor.





# Demograffig yr Arolwg

Demograffeg ddethol cyfranogwyr a gymryd rhan yn yr arolwg ar-lein.


## Lleoliad Cyfranogwyr





## Oedran cyfranogwyr





## Rhywedd cyfranogwyr




## Cyfranogwyr oedd yn ystyried fod ganddynt anabledd a ddiffininiwyd gan y Ddeddf Cydraddoldeb




## Sut y clywodd cyfranogwyr am arolwg yr ymgynghoriad






# Enghreifftiau o Gyfathrebiadau









## Mae Cyngor Sir Fynwy yn rhannu cynigion y gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod

Erthygl wedi ei diweddaru: **11th Ionawr 2024**, Under category: News


Mae Cyngor Sir Fynwy wedi datgelu mai ychydig llai na £200 miliwn fydd ar gael i'w wario ar wasanaethau yn y flwyddyn i ddod.


Wrth gyhoeddi manylion proses y gyllideb nôl ym mis Tachwedd 2023, amlygwyd pwysau ychwanegol o ran costau o £21.5 miliwn, a arweiniodd at fwlch cychwynnol heb ei ariannu yn y gyllideb o £14.4 miliwn.

Roedd y gagendor hwn yn cyfrif am bwysau gwariant anochel fel dyfarniadau cyflog, chwyddiant, costau benthyca, digartrefedd, cludiant o'r cartref i'r ysgol ac anghenion gofal cymdeithasol oedolion a phlant. Cyfrannodd y setliad blynyddol gan Lywodraeth Cymru £2.7 miliwn at hyn. Bydd cynigion i fynd i'r afael â'r £18.1 miliwn sy'n weddill yn cael eu hystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 17eg Ionawr.

Ar lefel gyffredinol, dibynnir ar newidiadau gwasanaeth/effeithlonrwydd i gyfrannu £8.5 miliwn, codiadau mewn taliadau gwasanaeth yn cyfrannu £0.8 miliwn, newidiadau i'r ffordd y rheolir dyled yn arbed £1.8 miliwn a gostyngiad pellach mewn costau ynni o £1.6 miliwn. Mae'r bwlch sy'n weddill o tua £5.4 miliwn i'w lenwi drwy gynyddu'r dreth gyngor o 7.5%.



**Diolch i bawb a gymerodd ran yn yr Ymgynghoriad ar Gynigion y Ddrafft Gyllideb.**

**www.monmouthshire.gov.uk/cy/cyllideb-2024-2025/**



monmouthshire
sir fynwy